**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**27 MEHEFIN 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 27 Mehefin 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, George Hardcastle, Ray Hughes, Ted Palmer, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Dennis Hutchinson; a'r Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Aaron Shotton ac Andy Dunbobbin yn bresennol fel arsylwyr, ynghyd a'r Cyngorydd Adrienne Jeorrett, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai; a Rheolwr Gwasanaeth, Menter ac Adfywio

Rheolwr Gwasanaeth, Rhaglenni Tai a'r Cynghorydd Sean Bibby, Dirprwy Gadeirydd, Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru (ar gyfer cofnod rhif 13)
Prif Weithredwr ac Uwch-Archwilydd (ar gyfer cofnod rhif 15)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 10. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 11. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2018.

Materion yn codi

Cofnod rhif 64: Adroddiad Monitro Cynllun y Cyngor ar gyfer diwedd y flwyddyn 2017/18 – yn unol â'r cais gan y Cynghorydd Hardcastle, cadarnhaodd yr Hwylusydd y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl-ddyledion rhent yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ar ddigartrefedd a drefnwyd ar gyfer mis Gorffennaf.

Cofnod rhif 65: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol – cytunodd yr Hwylusydd i ddilyn y cais ar gyfer nodyn briffio ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth tenantiaid i rannu gyda'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 12. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

Dywedodd y Cadeirydd y byddai yna newid bach yn nhrefn y busnes i ddod ag eitem 6 ar y rhaglen ymlaen. Roedd y Rheolwr Gwasanaeth, Rhaglenni Tai angen gadael y cyfarfod yn fuan i deithio i seremoni gwobrau cenedlaethol lle roedd Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol y Cyngor wedi'i enwebu ar gyfer y categori Datblygu Tai Cymdeithasol Gorau. Roedd y Cadeirydd yn canmol cyflawniadau'r rhaglen am ddarparu tai o ansawdd uchel.

## 13. CYNLLUN BUSNES CARTREFI GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU 2018/27

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth, Rhaglenni Tai adroddiad ar Gynllun Busnes Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru 2018/27 a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mai. Roedd yr adroddiad yn manylu cynnydd ar y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol a'r broses cymeradwyo benthyca newydd i Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru ar gyfer datblygu neu brynu tai fforddiadwy. Roedd y Cynllun Busnes – oedd wedi'i gynnwys fel atodiad cyfrinachol ar y rhaglen – yn manylu tai i'w datblygu drwy'r rhaglen SHARP, eiddo Adran 106 ac eiddo posibl drwy fenthyca yn erbyn asedau presennol.

Fel Dirprwy Gadeirydd Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru, rhoddodd y Cynghorydd Sean Bibby drosolwg o'r prif bwyntiau. Cyfeiriodd at y gofynion gwerthuso ariannol a soniodd am berthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng partneriaid i hwyluso darpariaeth tai o ansawdd uchel am rent fforddiadwy. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar y gwasanaeth gosodiadau a reolir sy'n cyfrannu at nod corfforaethol y Cyngor ar ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y sector preifat.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dolphin, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth y dull ar gyfer rheoli gosodiadau a dywedodd nad oedd angen gwneud gwaith atgyweirio mawr i eiddo hyd yma. Ychwanegodd bod yr arfer o gynnal arolygiadau chwarterol wedi helpu i nodi unrhyw faterion yn ystod camau cynnar.

Dywedodd y Cynghorydd Attridge am effeithiolrwydd y rhaglen rheoli dwyster uchel gan Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru i ddelio gyda materion tenantiaeth.

Wrth groesawu'r adroddiad cadarnhaol, diolchodd y Cynghorydd Hardcastle i'r Rheolwr Gwasanaeth a'i dîm am eu cyflawniadau.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton ei fod yn bleser nodi fforddiadwyedd lefelau rhent a osodwyd gan Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru ac y gallai rheoliadau newydd ar ffioedd gosod fod o fudd.

Canmolodd y Cynghorydd Ron Davies y bartneriaeth gyda'r contractwyr a benodwyd, Wates, oedd yn darparu gwasanaeth ardderchog.

Gofynnodd y Cynghorydd Palmer a fyddai'r Pwyllgor yn gallu cael ei gynrychioli ar Fwrdd Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru. Eglurodd y Rheolwr

Gwasanaeth gyfansoddiad y Bwrdd oedd yn cynnwys cynrychiolaeth trawsbleidiol o bump Aelod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Attridge at y cyn Brif Swyddog (Cymuned a Menter) fel prif ysgogydd sefydlu'r cwmni newydd, ynghyd â'r Rheolwr Gwasanaeth a'i dîm. Siaradodd am ragolygon twf y cwmni yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Cynllun Busnes Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru 2018/27 yn cael ei nodi.

## 14. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol i'w hystyried, cyfeiriodd yr Hwylusydd at gyfarfod arbennig yn y Fflint ar 17 Gorffennaf i ystyried y Strategaeth Tlodi Bwyd, byddai manylion yn cael eu cadarnhau drwy e-bost. Hefyd, dywedodd y byddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 19 Medi angen cael ei symud i 26 Medi.

Gofynnodd y Cynghorydd Dolphin am eitem ar orfodi cytundebau rhent a gwirio eiddo. Dywedodd y Cynghorydd Attridge y gallai hyn gael ei gynnwys mewn adroddiad ar reoli tai yn gyffredinol.

Gofynnodd y Cynghorydd Hardcastle a fyddai'n bosibl adfer yr arfer o ymweld ag ystadau – lle gwahoddwyd Aelodau lleol i fynd gyda swyddogion oedd yn cynnal gwiriadau ar eiddo yn eu ward. Dywedodd y Cynghorydd Attridge mai cyfrifoldeb Swyddogion Tai oedd y gwaith hwn.

Yn ystod trafodaeth, dywedodd Aelodau am eu profiadau unigol o roi gwybod am faterion tai.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Ron Davies, dywedodd y Cynghorydd Attridge fod y mater o droliau archfarchnad yn cael eu hepgor wedi'i godi yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd. Cyunodd y byddai copi o'r nodyn briffio yn cael ei rannu yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 15. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL 2017

Cyflwynodd yr Uwch-Archwilydd yr adroddiad yn crynhoi canfyddiadau adroddiad Archwilio Mewnol 2017 ar weithredu'r cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r ymatebion rheoli ar waith i ddelio â'r canfyddiadau hyn.

Eglurodd bod cwmpas yr archwiliad yn cynnwys gweinyddu'r cynllun o'r cam tendro i'r cam cwblhau'r gwaith, a gofynnodd i'r Aelodau nodi bod y gwasanaeth wedi bod drwy gyfnod trawsnewid. Roedd yr ardaloedd a amlygwyd ar gyfer gwella wedi eu manylu yn yr adroddiad, ynghyd â'r cynllun gweithredu rheolaeth a ddatblygwyd mewn ymateb i'r canfyddiadau.

Roedd y Rheolwr Gwasanaeth, Menter ac Adfywio yn rhoi eglurhad ar nifer o brosesau yn cael eu rhoi ar waith i gryfhau rheoliadau a chydymffurfedd. Byddai'r rhain hefyd yn galluogi gwell dealltwriaeth o amserlenni i helpu i wella perfformiad yn erbyn targedau. Roedd cynnydd ar gamau eraill yn cynnwys fframwaith caffael newydd i gyflymu'r broses, dal contractwyr i gyfrif a chyflawni gwerth am arian. Byddai sefydlu bwrdd trosolwg proffesiynol yn helpu i adolygu prosesau a monitro cynnydd ar y cynllun gweithredu. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi derbyn canfyddiadau'r adroddiad ac wedi trefnu diweddariad ymhen chwe mis, felly awgrymwyd efallai y byddai'r Pwyllgor hwn yn dymuno ystyried diweddariad yn nes ymlaen.

Roedd y Prif Weithredwr yn dyfynnu'r prif fater fel perfformiad a rhoddodd sicrwydd bod yr adroddiad wedi achosi pryder ac yn dangos gwerth y gwaith archwilio. Oherwydd pryderon am berchnogaeth a chyflymder ymatebion i'r canfyddiadau, roedd y bwrdd trosolwg proffesiynol wedi'i sefydlu i roi ymateb da i'r canfyddiadau ac roedd ganddynt nawr y dasg o adolygu a gwella prosesau drwy ddull dysgwr wedi'i reoli'n dda ac i geisio gwella perfformiad a safle Sir y Fflint ar DFG yn y tymor hwy. Rhoddwyd ymrwymiad i ddangos tryloywder gwaith ac adolygu rolau a chyfrifoldebau oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

Cytunodd y Cynghorydd Attridge fod canfyddiadau'r adroddiad yn destun pryder ac yn derbyn sylw yn y cynllun gweithredu, a bod y Pwyllgor Archwilio yn fodlon gyda'r cynnydd hyd yma. Aeth ymlaen i ymrwymo i geisio gwelliant yn y gwasanaeth Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl oedd yn fater hir-sefydlog.

Siaradodd y Cynghorydd Palmer am yr angen i fwyhau cyfleoedd i gwmnïau lleol. Eglurodd swyddogion y byddai'r fframwaith caffael yn dyrannu gwaith i gwmnïau lleol a rhanbarthol.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Dolphin ar eiddo'r Cyngor a addaswyd yn flaenorol oedd nawr yn wag, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth sicrwydd bod yna broses ar waith i adolygu opsiynau a chydweddu â'r ymgeisydd mwyaf addas. Hefyd, ymatebodd i ymholiad tebyg gan y Cynghorydd Hardcastle ar ailgylchu lifftiau grisiau sy'n cael eu symud o eiddo i'w defnyddio gan eraill sydd eu hangen.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth eglurhad i'r Cynghorydd Paul Shotton ar grantiau adleoli a benthyciadau ychwanegol oedd ar gael ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl dros y trothwy £36K – nad oedd gofyn mawr am yr un ohonynt.

Yn ystod trafodaeth, awgrymodd y Cynghorydd Attridge, bod y Pwyllgor yn derbyn yr un adroddiad diweddaru â'r Pwyllgor Archwilio ymhen chwe mis. Cytunodd a dywedodd y Prif Weithredwr er mwyn rhoi sicrwydd pellach i

Aelodau, yr adroddir ar gynnydd fel rhan o adroddiad monitro Cynllun y Cyngor hefyd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod cynnwys adroddiad Archwiliad Mewnol Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a'r cynllun gweithredu rheoli gwasanaeth yn cael ei nodi; a

(b) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru mewn chwe mis ar ôl ystyried cynllun gweithredu rheoli gwasanaeth gan y Pwyllgor Archwilio.

## 16. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd yna un aelod o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.05am)

…………………………
**Cadeirydd**